

# NIGHTINGALE HOUSE HOSPICE ANNUAL REPORT 2023

## CONTACT US

Nightingale House Hospice,
Chester Road, Wrexham, LL11 2SJ

01978 316800

info@nightingalehouse.co.uk

nightingalehouse.co.uk

nightingalehouse

nightingalehh

## DIRECTORS AND TRUSTEE COMMITTEE MEMBERS

Mrs Eluned Griffiths
Dr Neil Braid
Mrs Joan Lowe
Dr Jenny Duguid
Mr Graham Greasley
Mrs Vicky Varley
His Honour Philip Hughes
Mrs Alison Brebner
Mr Robert Cole
Mr Peter Weston
Mr Richard Thomas
Mr Christopher Burgoyne
Miss Caroline Jones

## MISSION STATEMENT

To provide support services for individuals (and their families) who are diagnosed with a progressive and/or life-limiting illness and living within our catchment area. Support and care will be delivered, where possible, in the location of their choice and within the resources available to Nightingale House Hospice.

Following an assessment of physical, emotional, social and spiritual needs, services will be delivered by a multi-disciplinary team trained and competent to meet the needs of all patients, including those with complex, specialist needs.

## VISION

To provide excellent, personalised and compassionate care for those living with a progressive and/or life-limiting illness in our community and support for their families and loved ones.

## VALUES

Values apply within every setting, interaction between staff and volunteers, how we treat patients and families, how we engage with partner organisations, supporters and suppliers. At all times we strive to be **compassionate**, **inclusive**, **honest**, **respectful**, and **proactive**.

## OUR CATCHMENT AREA

Our stores are at the heart of our local community and the catalyst to successful fundraising. We have shops in Wrexham, Mold, Buckley, Whitchurch and Oswestry.

Fundraising Groups have become the face of our hospice out in the community, acting as ambassadors for our cause. We are fortunate to be represented in the following areas: Bala, Chirk, Corwen, Hanmer, Leeswood, Llangollen and Mold.




Nightingale House Hospice
Registered Charity Number: 1035600 (Registered in England and Wales)

# WELCOME



It has been another remarkable year for Nightingale House Hospice, culminating in the successful completion of our extensive £5 million modernisation programme, which was finished on time and within budget. We owe a great deal of gratitude to our architects, TACP, our builders, Read Construction, and especially to Mike Goodwin, Project Consultant, for their exceptional work. The final phase involved a comprehensive refurbishment of the Inpatient Unit. As mentioned in last year's report, we were determined not to close the unit; instead, we reconfigured parts of the hospice to create a temporary ward.

It was with much joy and excitement that patients and staff moved across the new, state-of-the-art Inpatient Unit in January, enabling the Wellbeing patients to relocate from the Bradbury Atrium back into the Wellbeing Centre.

The completion of the Inpatient Unit was made possible through the financial contributions from trusts, foundations, businesses, and local individual donors. This refurbishment funding was separate from the £4.9 million required annually to cover the hospice's operating costs, of which only 18% came from the statutory sector, highlighting a disparity with hospice funding in South Wales. The remaining funds were raised through the diligent efforts of our Income Generation Department, the ongoing support of our fundraising groups, local businesses, and community members. This was an incredible achievement, especially given the economic climate.

Throughout 2023, our new medical structure and partnership with Supportive Care UK have gone from strength to strength. Our clinical and medical staff greatly value the support, training, and development program provided by our Supportive Care consultants. As an independent hospice, we are now well-positioned to achieve our strategic goals of increasing patient capacity in a modern clinical environment and expanding our services in the future.

A significant change this year was the retirement of Steve Parry, our CEO, after seven years. He played a crucial role in enabling Nightingale House to provide high-quality, up-to-date palliative care and in achieving good governance and financial stability. We are all extremely grateful for Steve's dedication, vision, and skill, which have ensured that Nightingale House not only continues to thrive but has also developed and progressed during very challenging times. Steve mentored and developed our Deputy CEO, Lauren Emberton, and we were delighted when she accepted the role of CEO after Steve retired. This transition has proven to be successful and seamless.

This year, our staff, and volunteers in both the hospice and retail division have been exceptional in working together to improve hospice services and funding despite the disruptions caused by the final refurbishment stage. The Trustees extend their grateful thanks and appreciation for their commitment and dedication.

The Board of Trustees and Executive Management Team have continued to strive to achieve the strategic aims of the hospice and to ensure good governance and financial stability.

On a personal note, I wish to thank my Trustee colleagues, all hospice staff, volunteers and the community for their expertise, commitment, and continued support throughout another challenging year.



**Eluned Griffiths, Chair of the Board of Trustees**

# TRANSFORMATION COMPLETE:
## NEW INPATIENT UNIT AT NIGHTINGALE HOUSE



In April 2023, work began to transform our current Inpatient Unit with modern facilities and increase the number of patient rooms from ten to twelve.

TACP provided the architectural drawings of the new unit. They worked closely with the Director of Clinical and Patient Services and the wider clinical team to ensure that the facilities were suitable for patients, families, staff, and volunteers.

It was a collective effort to transfer the Inpatient Unit's current facilities to the Wellbeing Centre as a temporary measure for the eight months that construction took place. This meant that Nightingale House could continue to accommodate up to six patients for respite and end-of-life care. Staff and volunteers worked tirelessly to make the transition possible, and the temporary Inpatient Unit was fully operational in less than a week.

Once everything was removed from the Inpatient Unit, Read Construction and their subcontractors began remodelling the space, integrating piped oxygen and suction as well as creating a modern, welcoming environment.

Just before Christmas, Read Construction completed the handover of the Inpatient Unit back to Nightingale House. Read Construction Contracts Manager, Damian Bryan, said: *"Working with Nightingale House Hospice on their modernisation programme over the past few years has been fantastic. We are really pleased that we could be part of such an important project, creating a modern, welcoming, first-class environment for the local community to be cared for in their time of need. We want to thank our subcontractors who donated their time, expertise, and resources to make this happen."*

Staff, volunteers, and trustees were delighted to see the first glimpses of our new Inpatient Unit at the handover.

Senior Nurse, Julie Lloyd, explained: *"It's like being a kid at Christmas… We've all been waiting so long to see the new Inpatient Unit. It looks absolutely fabulous! Knowing we are going to care for patients in this environment, I am so proud to work here."*

Health Care Support Worker, Michelle Constantine, added: *"Everyone has been quite emotional about the new Inpatient Unit. It looks even better than we ever imagined. Many patients and their families comment on how we provide a high standard of care and attention, and now we have the environment and facilities to match."*

Donations from the public have helped us fund the £1.6 million modernisation of the Inpatient Unit. Laura Hughes, Ward Manager, expressed her gratitude: *"We are all in awe of how the public continues to support our appeal and have raised an incredible amount of money so far, but it just keeps going up, and the funds are still very much needed to complete the finishing touches… The new facilities will allow us to care for patients long into the future."*

# EVERY NUMBER SUPPORTS
# A REAL LIFE STORY

Our care is provided by a multi-disciplinary team – comprising of consultants, nurses, doctors, social workers, physiotherapists, occupational therapists, chaplains, complementary therapists, volunteers and more – **working together to support individuals and their loved ones.**

Below is a snapshot of the activities our team delivered in 2023.

**135** Inpatient Unit admissions

**753** Wellbeing Centre attendances

**1036** Complementary Therapy appointments

**563** Outpatient assessments

**135** Acupuncture sessions

**97** Spiritual Support sessions

**298** Gym sessions attended

**180** Patients receiving Hydrotherapy

**277** Adult Bereavement Support sessions

**369** Child Bereavement Support sessions



# A HOME FROM HOME FOR PATIENTS DURING THE MOST DIFFICULT TIMES

The services available at Nightingale House Hospice allow patients with a wide range of conditions the support and care they need during the most difficult times.

At the age of 70, Ken Chesworth was dealt a devastating blow when he was diagnosed with Motor Neurone Disease. This news profoundly impacted him, particularly because he had always been active. This condition gradually shuts down all the muscles in the body, posing immense challenges for people like Ken.

Ken's wife, Angela Chesworth, describes how he sought support from Nightingale House Hospice even when preconceptions about hospices made him reluctant to reach out:

She said: *"A family member who worked at Nightingale House asked Ken if he wanted to have a look around the hospice. Ken really didn't like the sound of a hospice and was unenthusiastic about the prospect of going. But we all said, 'Just give it a go... If you don't like it, no problem.' He went, and he never looked back. He was hooked!"*

Angela talked about the services Ken accessed when he attended sessions at the hospice:

*"He started going once a week to access a whole host of services. He'd have Reiki, massage, and physiotherapy sessions in the hydrotherapy pool to keep his limbs moving. He loved music therapy sessions, where he would join in with cymbals the team would strap to his feet and sing along with everybody!"*

Following his diagnosis, Ken's condition slowly deteriorated.

Angela said: *"As his condition worsened, the hospice invited Ken for respite care, which was a few days and sometimes a week here and there, which helped him to feel better and gave us a break that we really needed."*

*"Ken had said he wanted to be at home at the end. However, as his condition declined, he realised that we could no longer meet his needs at home. When it was suggested that he went to the hospice... He smiled. He was going to his second home. The hospice gave us one of their large rooms with an extra bed, and I never left his side during those final days... Ken died peacefully, without pain, and I was by his side."*

> ***"The respite service provided at Nightingale House Hospice plays a crucial role in offering much-needed relief and support to patients and their families. This invaluable, no-cost service allows individuals with palliative and life-limiting conditions, as well as their loved ones, to take a moment to rest, recharge, and receive exceptional care in a nurturing environment at Nightingale House Hospice."***
>
> Paula Pritchard
> Clinical Services and Patient Flow Lead



# SUPPORTING THE NUMBERS
# BEHIND THE STORY



## HOSPICE INCOME **£5.065M**

- FUNDRAISING INCOME **28%**
- STATUTORY INCOME **18%**
- LOTTERY **PROFIT 9%**
- GIFTS IN WILLS INCOME **19%**
- RETAIL **PROFIT** (INCLUDING CATERING) **12%**
- GRANTS **14%**



## HOSPICE EXPENDITURE **£4.219M**

- PATIENT AND FAMILY SUPPORT **87%**
- FUNDRAISING **13%**

## WHAT CAN YOU DO?

**VOLUNTEER**
We rely on the support of volunteers to provide the best possible care for our patients. Every volunteer within the hospice believes in the work we do and is moved by the impact they make on our patients and their families' lives.

**HOSPICE LOTTERY**
Join our lottery for just £1 a week and make a difference. This year our lottery generated **£440,539** profit that was all used to support patient services, funding the hospice for **33 days**.

These figures are based on the Nightingale House management accounts as of 31/12/23.
Please see companies house for consolidated accounts.

# CEFNOGI'R RHIFAU Y
# TU ÔL I'R STORI



## INCWM YR HOSPIS **£5.065M**

- INCWM CODI ARIAN **28%**
- INCWM STATUDOL **18%**
- **ELW'R** LOTRI **9%**
- INCWM RHODDION EWYLLYS **19%**
- YR **ELW** O ADWERTHU (GAN GYNNWYS ARLWYO) **12%**
- GRANTIAU **14%**



## GWARIANT YR HOSPIS **£4.219M**

- CYMORTH TEULU AC I GLEIFION **87%**
- CODI ARIAN **13%**

## BETH ALLWCH CHI WNEUD?

**GWIRFODDOLI**
Dibynnwn ar gefnogaeth gwirfoddolwyr i ddarparu'r gofal gorau posib i'n cleifion. Mae pob gwirfoddolwr yn yr hosbis yn credu yn y gwaith a wnawn ac yn teimlo'n gryf am yr effaith y mae'n ei gael ar fywydau ein cleifion a'u teuluoedd.

**LOTERI'R HOSBIS**
Ymunwch â'n loteri am ddim ond £1 yr wythnos i wneud gwahaniaeth. Eleni llwyddodd ein loteri i wneud elw o **£440,539** ac fe ddefnyddiwyd y cwbl i gefnogi gwasanaethau cleifion, gan ariannu'r hosbis am **33 diwrnod.**

Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar gyfrifon rheoli Tŷ'r Eos ar 31/12/22.
Am y cyfrifon cyfunol, ewch i wefan Tŷ'r Cwmnïau.



# CARTREF ODDI CARTREF I GLEIFION YN YSTOD YR ADEGAU MWYAF ANODD

Mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn Hosbis Tŷ'r Eos yn rhoi'r cymorth a'r gofal sydd eu hangen ar gleifion ag ystod eang o gyflyrau yn ystod y cyfnodau mwyaf anodd.

Yn 70 oed, cafodd Ken Chesworth ergyd drom pan gafodd ddiagnosis o Glefyd Niwronau Motor. Cafodd y newyddion hyn effaith fawr arno, yn enwedig am ei fod wedi bod yn sionc a heini erioed. Mae'r cyflwr hwn yn cau'r holl gyhyrau yn y corff yn raddol, gan achosi heriau enfawr i bobl fel Ken.

Mae gwraig Ken, Angela Chesworth, yn disgrifio sut y gofynnodd am gefnogaeth gan Hosbis Tŷ'r Eos, hyd yn oed pan oedd ei ragdybiaethau am hosbisau yn ei wneud yn amharod i ofyn am help llaw:

Dywedodd: "Gofynnodd aelod o'r teulu a oedd yn gweithio yn Nhŷ'r Eos i Ken a fyddai'n awyddus i edrych o gwmpas yr hosbis. Doedd Ken ddim yn hoffi'r syniad o hosbis a doedd e ddim yn frwdfrydig ynghylch y posibilrwydd o fynd yno. Ond fe ddywedon ni i gyd, 'Rho gynnig arni…Os nad wyt ti'n ei hoffi, dim problem.' Fe aeth yno ac edrychodd e ddim yn ôl. Roedd e wedi gwirioni!"

Soniodd Angela am y gwasanaethau a gafodd Ken pan aeth i sesiynau yn yr hosbis:

*"Dechreuodd fynd unwaith yr wythnos er mwyn cael mynediad at amrywiaeth helaeth o wasanaethau. Byddai'n cael sesiynau Reiki, tylino a ffisiotherapi yn y pwll hydrotherapi i gadw ei goesau i symud. Roedd wrth ei fodd â sesiynau therapi cerdd, lle byddai'n ymuno gyda symbalau y byddai'r tîm yn eu strapio i'w draed ac yn ymuno â'r canu gyda phawb!"*

Yn dilyn ei ddiagnosis, dirywiodd cyflwr Ken yn araf.

Dywedodd Angela: "Wrth i'w gyflwr waethygu, fe wnaeth yr hosbis wahodd Ken am ofal seibiant, a oedd fel arfer am ychydig ddyddiau ac weithiau am wythnos yma ac acw. Roedd hyn yn ei helpu i deimlo'n well ac yn rhoi seibiant angenrheidiol i ni."

*"Roedd Ken wedi dweud ei fod yn dymuno bod gartref ar gyfer y diwedd. Fodd bynnag, wrth i'w gyflwr ddirywio, sylweddolodd na allem ddiwallu ei anghenion gartref mwyach. Pan awgrymwyd ei fod yn mynd i'r hosbis… gwenodd. Roedd yn mynd i'w ail gartref. Rhoddodd yr hosbis un o'i ystafelloedd mawr gyda gwely ychwanegol i ni, ac adawais i mo'i ochr yn ystod y dyddiau olaf hynny… Bu farw Ken yn dawel, heb boen, ac roeddwn wrth ei ochr."*

> ***"Mae'r gwasanaeth seibiant a ddarperir yn Hosbis Tŷ'r Eos yn hanfodol er mwyn cynnig rhyddhad a chymorth y mae mawr eu hangen ar gleifion a'u teuluoedd. Mae'r gwasanaeth amhrisiadwy hwn, sy'n rhad ac am ddim, yn caniatáu i unigolion â chyflyrau lliniarol sy'n cyfyngu ar fywyd, yn ogystal â'u hanwyliaid, gymryd ennyd i orffwys, magu nerth, a derbyn gofal eithriadol mewn amgylchedd anogol yn Hosbis Tŷ'r Eos."***
>
> Paula Pritchard
> Arweinydd Gwasanaethau Clinigol a Llif Cleifion



# Y TRAWSNEWID WEDI'I GWBLHAU:
## UNED CLEIFION MEWNOL NEWYDD YN NHŶ'R EOS



Ym mis Ebrill 2023, dechreuwyd ar y gwaith o drawsnewid ein Huned Cleifion Mewnol bresennol gyda chyfleusterau modern, a chynyddu nifer yr ystafelloedd cleifion o ddeg i ddeuddeg.

Darparwyd dyluniadau pensaernïol yr uned newydd gan TACP. Buont yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol a Chleifion a'r tîm clinigol ehangach i sicrhau bod y cyfleusterau'n addas ar gyfer cleifion, teuluoedd, staff a gwirfoddolwyr.

Roedd yn ymdrech ar y cyd i drosglwyddo cyfleusterau presennol yr Uned Cleifion Mewnol i'r Ganolfan Lesiant fel mesur dros dro am yr wyth mis y bu'r gwaith adeiladu'n digwydd. Roedd hyn yn golygu y gallai Tŷ'r Eos barhau i ddarparu ar gyfer hyd at chwe chlaf ar gyfer gofal seibiant a gofal diwedd oes. Gweithiodd staff a gwirfoddolwyr yn ddiflino i wneud y trawsnewid yn bosibl, ac roedd yr Uned Cleifion Mewnol dros dro yn gwbl weithredol mewn llai nag wythnos.

Unwaith y tynnwyd popeth o'r Uned Cleifion Mewnol, dechreuodd Read Construction a'u hisgontractwyr ailfodelu'r gofod, gan integreiddio systemau ocsigen mewn pibell a sugno yn ogystal â chreu amgylchedd modern, croesawgar.

Toc cyn y Nadolig, cwblhaodd Read Construction y broses o drosglwyddo'r Uned Cleifion Mewnol yn ôl i Dŷ'r Eos. Dywedodd Rheolwr Contractau Read Construction, Damian Bryan: "Mae gweithio gyda Hosbis Tŷ'r Eos ar eu rhaglen foderneiddio dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn wych. Rydym yn wirioneddol falch ein bod wedi gallu bod yn rhan o brosiect mor bwysig, gan greu amgylchedd modern, croesawgar, o'r radd flaenaf i'r gymuned leol gael gofal ar yr adeg pan fo'i angen fwyaf. Rydym am ddiolch i'n his-gontractwyr a roddodd eu hamser, eu harbenigedd a'u hadnoddau i sicrhau bod hyn yn digwydd."

Roedd staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr wrth eu boddau o weld y cipolwg cyntaf ar ein Huned Cleifion Mewnol newydd yn ystod y trosglwyddiad.

Esboniodd yr Uwch Nyrs, Julie Lloyd: "Mae fel bod yn blentyn adeg y Nadolig…Rydym i gyd wedi bod yn aros cyhyd i weld yr Uned Cleifion Mewnol newydd. Mae'n edrych yn hollol wych! Gan wybod ein bod yn mynd i ofalu am gleifion yn yr amgylchedd hwn, rwyf mor falch o weithio yma."

Ychwanegodd y Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd, Michelle Constantine: "Mae pawb wedi bod yn eithaf emosiynol am yr Uned Cleifion Mewnol newydd. Mae'n edrych hyd yn oed yn well nag yr oeddem wedi'i ddychmygu. Mae llawer o gleifion a'u teuluoedd yn sôn am sut rydym yn darparu safon uchel o ofal a sylw, a nawr mae gennym yr amgylchedd a'r cyfleusterau i ategu hynny."

Mae rhoddion gan y cyhoedd wedi ein helpu i ariannu'r gwaith gwerth £1.6 miliwn o foderneiddio'r Uned Cleifion Mewnol. Mynegodd Laura Hughes, Rheolwr y Ward, ei diolchgarwch: "Rydym i gyd wedi rhyfeddu at sut mae'r cyhoedd yn parhau i gefnogi ein hapêl ac wedi codi swm anhygoel o arian hyd yn hyn, ond mae'n dal i godi, ac mae'r arian yn dal i fod yn angenrheidiol i gwblhau'r manion olaf… Bydd y cyfleusterau newydd yn ein galluogi i ofalu am gleifion ymhell i'r dyfodol."

# MAE POB RHIF YN CEFNOGI
# STORI AM FYWYD GO IAWN

Mae ein gofal yn cael ei ddarparu gan dîm aml-ddisgyblaeth – sy'n cynnwys ymgynghorwyr, nyrsys, meddygon, gweithwyr cymdeithasol, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, caplaniaid, therapyddion cyflenwol, gwirfoddolwyr a mwy – **sy'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi unigolion a'u hanwyliaid.**

Rhoddir ciplun isod o'r gwaith a wnaed gan ein tîm yn 2023.

**135** Derbyniadau i'r Uned Cleifion Mewnol

**753** Presenoldeb yn y Ganolfan Lesiant

**1036** Apwyntiadau Therapïau Cyflenwol

**563** Asesiadau Cleifion Allanol

**135** Sesiynau aciwbigo

**97** Sesiynau Cymorth Ysbrydol

**298** Sesiynau yn y gampfa

**180** Cleifion yn derbyn Hydrotherapi

**277** Sesiynau Cymorth Galar i Oedolion

**369** Sesiynau Cymorth Galar i Blant

## CONTACT US

Hosbis Tŷ'r Eos, Ffordd Caer,
Wrecsam, LL11 2SJ

01978 316800

info@nightingalehouse.co.uk

nightingalehouse.co.uk

nightingalehouse

nightingalehh


## CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR SY'N AELODAU O'R PWYLLGOR


Mrs Eluned Griffiths
Dr Neil Braid
Mrs Joan Lowe
Dr Jenny Duguid
Mr Graham Greasley
Mrs Vicky Varley
His Honour Philip Hughes
Mrs Alison Brebner
Mr Robert Cole
Mr Peter Weston
Mr Richard Thomas
Mr Christopher Burgoyne
Miss Caroline Jones


## DATGANIAD CENHADAETH

Darparu gwasanaethau cymorth i unigolion (a'u teuluoedd) sy'n cael diagnosis o salwch gwaethygol a/neu sy'n cyfyngu ar eu bywydau ac sy'n byw yn ein dalgylch. Bydd cymorth a gofal yn cael eu darparu, lle bo modd, yn y lleoliad sydd orau gan yr unigolyn ac o fewn yr adnoddau sydd ar gael i Hosbis Tŷ'r Eos.

Yn dilyn asesiad o anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol ac ysbrydol y claf, bydd y gwasanaethau'n cael eu darparu gan dîm aml-ddisgyblaeth sydd wedi'i hyfforddi ac sy'n gymwys i ateb anghenion pob claf, gan gynnwys rhai sydd ag anghenion cymhleth ac arbenigol.

## GWELEDIGAETH

Darparu gofal rhagorol, tosturiol wedi'i bersonoleiddio i rai sy'n byw gyda salwch gwaethygol a/neu sy'n cyfyngu ar eu bywydau, yn ein cymuned, a chymorth i'w teuluoedd a'u hanwyliaid.

## GWERTHOEDD

Mae gwerthoedd yn berthnasol i bob lleoliad a chyswllt rhwng staff a gwirfoddolwyr o ran sut yr ydym yn trin cleifion a theuluoedd a sut yr ydym yn ymgysylltu â'n sefydliadau partner, cefnogwyr a chyflenwyr. Ymdrechwn bob amser i fod yn dosturiol, cynhwysol, gonest, parchus a rhagweithiol.

## EIN DALGYLCH

Mae ein siopau wrth galon ein cymuned leol ac yn gatalydd i godi arian yn llwyddiannus. Mae gennym siopau yn Wrecsam, Yr Wyddgrug, Bwcle, Whitchurch a Chroesoswallt.

Mae Grwpiau Codi Arian wedi dod yn wyneb i'n hosbis yn y gymuned, gan weithredu fel cenhadon dros ein hachos. Rydym yn ffodus o gael ein cynrychioli yn yr ardaloedd canlynol: Y Bala, Y Waun, Corwen, Hanmer, Coed-llai, Llangollen a'r Wyddgrug.





Hosbis Tŷ'r Eos.
Rhif Cofrestredig yr Elusen: 1035600 (Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr)


# CROESO



Bu'n flwyddyn ryfeddol arall i Hosbis Tŷ'r Eos, a ddaeth i benllanw gyda'n rhaglen foderneiddio helaeth gwerth £5 miliwn yn cael ei chwblhau'n llwyddiannus, ar amser ac o fewn y gyllideb. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n penseiri, TACP, ein hadeiladwyr, Read Construction, ac yn arbennig i'r Ymgynghorydd Prosiect, Mike Goodwin, am eu gwaith eithriadol. Roedd y cam olaf yn cynnwys adnewyddiad cynhwysfawr o'r Uned Cleifion Mewnol. Fel y soniwyd yn adroddiad y llynedd, roeddem yn benderfynol o beidio â chau'r uned; yn lle hynny, fe wnaethom ad-drefnu rhannau o'r hosbis i greu ward dros dro.

Bu yna lawer o lawenydd a chyffro wrth i'r cleifion a'r staff symud i'r Uned Cleifion Mewnol newydd o'r radd flaenaf ym mis Ionawr, gan alluogi'r cleifion Llesiant i adleoli o Atriwm Bradbury yn ôl i'r Ganolfan Lesiant.

Roedd yn bosibl cwblhau'r Uned Cleifion Mewnol drwy gyfraniadau ariannol gan ymddiriedolaethau, sefydliadau, busnesau a rhoddwyr unigol lleol. Roedd y cyllid adnewyddu hwn ar wahân i'r £4.9 miliwn sydd ei angen yn flynyddol i dalu costau gweithredu'r hosbis, a dim ond 18% o'r arian hwnnw a ddaeth o'r sector statudol, gan amlygu anghyfartaledd o ran cyllid hosbisau yn Ne Cymru. Codwyd gweddill yr arian trwy ymdrechion diwyd ein Hadran Cynhyrchu Incwm, cefnogaeth barhaus ein grwpiau codi arian, busnesau lleol, ac aelodau o'r gymuned. Roedd hwn yn gyflawniad anhygoel, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd economaidd.

Drwy gydol 2023, mae ein strwythur meddygol newydd a'n partneriaeth â Supportive Care UK wedi mynd o nerth i nerth. Mae ein staff clinigol a meddygol yn gwerthfawrogi'n fawr y cymorth, yr hyfforddiant a'r rhaglen ddatblygu a ddarperir gan ein hymgynghorwyr Supportive Care. Fel hosbis annibynnol, rydym bellach mewn sefyllfa dda i gyflawni ein nodau strategol o gynyddu nifer y cleifion mewn amgylchedd clinigol modern ac ehangu ein gwasanaethau yn y dyfodol.

Newid sylweddol eleni oedd ymddeoliad Steve Parry, ein Prif Weithredwr, ar ôl saith mlynedd. Chwaraeodd ran hanfodol wrth alluogi Tŷ'r Eos i ddarparu'r gofal lliniarol diweddaraf o ansawdd uchel ac wrth sicrhau llywodraethu da a sefydlogrwydd ariannol. Rydym i gyd yn hynod ddiolchgar am ymroddiad, gweledigaeth a sgiliau Steve, sydd wedi sicrhau bod Tŷ'r Eos nid yn unig yn parhau i ffynnu ond hefyd wedi datblygu a gwneud cynydd yn ystod cyfnod heriol iawn. Bu Steve yn mentora a datblygu ein Dirprwy Brif Weithredwr, Lauren Emberton, ac roeddem wrth ein boddau pan dderbyniodd Lauren rôl y Prif Weithredwr ar ôl i Steve ymddeol. Mae'r newid hwn wedi bod yn llwyddiannus ac yn ddi-dor.

Eleni, mae ein staff a'n gwirfoddolwyr, yn yr hosbis a'r adran manwerthu, wedi bod yn arbennig o ran cydweithio i wella gwasanaethau a chyllid yr hosbis er gwaethaf yr aflonyddwch a achoswyd gan gam olaf y gwaith adnewyddu. Dymuna'r Ymddiriedolwyr ddiolch o galon iddynt am eu hymroddiad a'u hymrwymiad.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Tîm Rheoli Gweithredol wedi parhau i ymdrechu i gyflawni nodau strategol yr hosbis ac i sicrhau llywodraethu da a sefydlogrwydd ariannol.

Ar nodyn personol, hoffwn ddiolch i'm cyd-ymddiriedolwyr, holl staff yr hosbis, gwirfoddolwyr a'r gymuned am eu harbenigedd, eu hymrwymiad, a'u cefnogaeth barhaus drwy gydol blwyddyn heriol arall.

*Eluned Griffiths*

**Eluned Griffiths, Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**



ADRODDIAD BLYNYDDOL
HOSBIS TŶ'R EOS 2023